

## Gofal Plant Am Ddim 30 awr yn Cylch Meithrin Cwmnedd



Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu hyd at 30 awr yr wythnos o ofal plant ac addysg gynnar sy'n cael ei ariannu gan y llywodraeth ar gyfer rhieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant 3-4 oed, hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Mae'r cynnig ar gael i blant o'r tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd tan y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed, pryd byddan nhw'n cael cynnig lle amser llawn mewn addysg.

Mae'r Cynnig yn gyfuniad o'r ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen Meithrin (FPN) sydd ar gael i bob plentyn 3 a 4 oed, a gofal plant ychwanegol wedi'i ariannu.

Mae pob cais am y Cynnig Gofal Plant yn cael ei brosesu gan dîm Gofal Plant Cyngor Castell-nedd Port Talbot.

### Pwy sy'n gymwys?

I fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, rhaid i chi fodloni'r amodau canlynol:

- Yn byw yn Nghastell-nedd Port Talbot
- Bod â phlentyn 3 neu 4 oed
- Ennill ar gyfartaledd isafswm wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW) neu'r cyflog byw cenedlaethol (NLW), neu fwy, ond llai na £100,000 per year.

Os ydych chi mewn teulu un riant, mae angen eich bod chi'n gweithio, ac os ydych chi mewn teulu dau riant, mae angen i'r ddau ohonoch chi fod yn gweithio.

Os ydych chi'n hunangyflogedig neu ar gontract oriau sero, mae angen i chi fedru profi hynny trwy ddarparu'r dogfennau perthnasol.

## Sut mae'r cynnig yn gweithio

### Gall plentyn sy'n troi'n 3 oed rhwng:

1 Medi 2020 - 3 Ionawr 2021  
4 Ionawr 2021 - 11 Ebrill 2021  
12 Ebrill 2021 - 31 Awst 2021

### Gael mynediad i'r Cynnig o:

Dymor y gwanwyn (4 Ionawr ymlaen)  
Dymor yr haf (12 Ebrill ymlaen)  
Dymor yr hydref (1 Medi ymlaen)

Sylwer y bydd y cynnig yn cychwyn o ddiwrnod cyntaf y tymor ysgol a bennwyd gan yr Awdurdod Lleol.

## Sut mae gwneud cais

I wneud cais mae angen i chi gwblhau ffurflen gais ar-lein.

Peidiwch â gwneud cais am y cynnig fwy na 12 wythnos cyn dyddiad cychwyn eich plentyn, os gwelwch yn dda. Bydd unrhyw geisiadau a ddaw i law cyn y 12 wythnos yn cael eu gwrthod a bydd rhaid cyflwyno cais newydd.

## Cyn cyflwyno cais

Cyn cychwyn ar eich cais, dilynwch y camau isod:

### Cam 1

Gwiriwch gyda'r darparw(y)r gofal plant rydych chi wedi eu dewis i sicrhau eu bod nhw wedi cofrestru i fod yn ddarparwr i'r Cynnig Gofal Plant yng Nghastell-nedd Port Talbot.

### Cam 2

Gan fod dim modd cadw'r ffurflen gofrestru yma, gofaluwch fod yr wybodaeth ganlydol wrth law cyn i chi gychwyn a bod yr holl ddogfennau wedi'u cadw ar ffurflen PDF neu ffeiliau delweddu cyn dechrau'r cais.

- Sgan/ffotograff o dystysgrif geni eich plentyn
- Sganiau/ffotograffau o slipliau cyflog tri mis diwethaf y riant
- Sgan/ffotograff o brawf preswyliaeth (e.e. datganiad diweddaraf treth y cyngor, datganiad banc, bil cyfleustodau, dogfen(nau) yswiriant)
- Oriau a diwrnodau'r darparwyr gofal plant y cytunwyd arnynt
- Manylion cyswllt cyflogwr, gan gynnwys: Cyfeiriad, rhif ffôn ac e-bost
- Sgan/ffotograff o unrhyw lythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu lythyr gan y cyflogwr presennol a fyddai'n golygu bod rhieni'n gymwys i dderbyn y Cynnig Gofal Plant os nad ydynt mewn gwaith ar hyn o bryd.

### Cam 3

Cwblhewch y ffurflen gais ar-lein isod.

## [Ffurflen Gais](#)

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â**

**Helen at Cylch Meithrin Cwmnedd**

07950 506497 [cylhcwmnedd@gmail.com](mailto:cylhcwmnedd@gmail.com)